**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**05/12/2025**

1000 – 1430

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards

**Hefyd yn bresennol**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Peter Strachan

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd fylchau mewn perthynas â sicrwydd, gan ddweud bod camau gweithredu ar ddigwyddiadau SPAD RSSP[redacted]. Trafododd y Bwrdd berchnogaeth glir, amserlenni realistig, dadansoddiad o wraidd problemau, a dilysu ar sail tystiolaeth, gan nodi y dylai gwaith llywodraethu gyflawni canlyniadau, nid dim ond cadw golwg ar gamau gweithredu. Bydd ffurfweddiad Evotix fel ffynhonnell wirionedd yn cael ei adolygu, a bydd crynodeb y Bwrdd yn amlinellu camau agored hanesyddol a gwelliannau arfaethedig, gan gynnwys edrych yn fanwl ar bethau ar hap a rhoi her o ran busnesau bach a chanolig.

**3. Sylw i gwsmeriaid**
Nododd y Bwrdd y cynnydd o ran rheoli gwybodaeth cwsmeriaid o dan arweinyddiaeth newydd, gyda llif gwe ar ddata cyfryngau cymdeithasol a chynlluniau ar gyfer digolledu amser real a sesiynau "Cwrdd â'r Rheolwr". Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd methiannau mewn gwasanaeth, yn enwedig dibynadwyedd seilwaith ar Linellau Craidd y Cymoedd a chydweithio â Network Rail, ochr yn ochr ag adolygiadau o berfformiad y llwybrau sy'n perfformio waethaf drwy ODSG. [redacted] Nodwyd y prosiect Trustpilot cyfredol, ar ôl i'r sgoriau godi o 1.9 i 3.5, gyda llwybr clir i 4.5.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

- Llwyddwyd i gyrraedd targedau'r cyfnod er gwaethaf heriau o ran seilwaith a phroblemau'n ymwneud ag argaeledd o ganlyniad i stormydd; cyflawnwyd gwelliannau mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall a dadansoddiad manylach o'r hyn oedd wrth wraidd problemau.
- Roedd Llinellau Craidd y Cymoedd yn perfformio'n dda gyda thwf cadarnhaol o un flwyddyn i'r llall. Roedd Cymru a'r Gororau wedi cau ar 71% PTL (Amser mae Teithwyr yn ei Golli) ond ar hyn o bryd nid yw ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed perfformiad. Bydd trafodaethau manwl yn cael eu cynnal gyda thimau lleol ar y Gororau cyn i'r cyfnod ddod i ben. Gofynnodd y Bwrdd i MD ac NM am ragor o fanylion am berfformiad y Gororau [MD/NM i weithredu]. SH a MD i fynychu ac arsylwi cyfarfodydd lefel Un.
- Fflyd Class 398 – nodi diffygion parhaus er gwaethaf cynnydd wrth addasu. Disgwylir i'r feddalwedd gael ei diweddaru heddiw, gyda'r profion yn ailddechrau ddydd Llun, a'r data cyfunol ar namau wedi'i uwchgyfeirio.
- Mae rheoli absenoldeb yn parhau i fod yn ffocws allweddol, gydag uwch arweinwyr AD yn mynd ati i sbarduno camau gweithredu i wella presenoldeb a rhoi datrysiadau ar waith

[redacted] Fflyd - Trafododd y Bwrdd berfformiad y fflyd, gan nodi ymdrechion cryf i adfer a gwaith effeithiol i gydweithio â thimau rheoli, er gwaethaf prinder deunyddiau a heriau cynnal a chadw. Roedd y fflydoedd a gynhelir gan TrC wedi perfformio'n dda heb lawer o fuddsoddiad, [redacted]

[redacted] Rhoddwyd diweddariad ar ddigwyddiad Talerddig yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol cyn yr ymgynghoriad ei hun gydag RAIB [redacted]

**6. Adolygiad ariannol**

Trafododd y Bwrdd pa mor barod oeddent cyn proses graffu Llywodraeth Cymru, [redacted]

**7. Mynediad Agored**

Ymunodd Dafydd Williams â'r cyfarfod.

Trafododd y Bwrdd y cynnydd diweddar mewn ceisiadau mynediad agored, [redacted]. Trafododd y Bwrdd gryfhau coridor Casnewydd-y Fenni [redacted] Mae achos busnes y Fenni yn mynd rhagddo a disgwylir y bydd yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Ychydig iawn o ofynion o ran cymhorthdal a ragwelir, er bod gofynion unedau a'r posibilrwydd o gynnwys Llanllieni yn dal i gael eu hadolygu. [redacted], ochr yn ochr ag archwilio opsiynau Mk IV cyflym ar gyfer gwella amseroedd teithio. [redacted]

**8. Cytundeb Grant**

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y bwrdd gynnig y Cytundeb Grant.

**9. Diweddariad Masnachol**

Trafododd y Bwrdd oedi o ran marchnata [redacted] a disgwylir i'r effaith dreiddio drwodd yng nghyfnodau 9 a 10. [redacted] Tynnwyd sylw at dwf teithiau fel blaenoriaeth, ochr yn ochr â heriau o ran gostyngiadau

effeithlonrwydd yn dilyn trosglwyddo gwaith diogelu refeniw yn fewnol. Trafododd y Bwrdd orfodi'r prisiau uchaf ar gyfer pobl sy'n cyrraedd Caerdydd Canolog heb docyn. [redacted] Gofynnwyd am ddadansoddiad a diweddariad pellach ar wneud y gorau o'r adnoddau presennol ar gyfer lliniaru twyll a diogelu refeniw [AC i weithredu]

**10. Diweddariad ar Farchnata**

Trafododd y Bwrdd berfformiad marchnata, gan nodi bod ymchwil annibynnol ac econometreg yn cadarnhau enillion uwch ar fuddsoddiad gyda mwy o wariant, ac mae canlyniadau busnes fel arfer yn tracio'n uwch na'r disgwyl, [redacted] Nodwyd diffyg Google PPC, a oedd wedi effeithio ar berfformiad trosi ac algorithmau, gyda chamau cywiro ar waith. Roedd diweddariadau i ap TrC wedi dangos rhai problemau o ran profiad defnyddwyr hefyd (methiannau o ran mewngofnodi, perfformiad araf, [redacted] felly roedd angen cywiro hynny. Cafwyd cynnydd o tua 20% yn sgil ymyriadau marchnata ar gyfer y Metro a'r Cymoedd, gyda chyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar gymysgedd sianeli a hyrwyddo prisiau tanysgrifio a theyrngarwch. Serch hynny, mae cynlluniau peilot prisiau brig yn dal ar stop oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti. Mae refeniw Farebox yn sefydlog, sy'n awgrymu bod problemau wedi'u lleoleiddio i sianeli digidol.

**11. Unrhyw Fater Arall**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**